**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog
Partneriaeth Gymdeithasol

18 Mawrth 2024

Annwyl Ddirprwy Weinidog,

## Ymchwiliad i'r Gwasanaethau Tân ac Achub: cais am wybodaeth

Diolch am fynd i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 26 Chwefror 2024 fel rhan o'n hymchwiliad i drefniadau llywodraethu gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Ers y sesiwn honno, rydych wedi cyhoeddi dau adolygiad annibynnol arall i Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Felly, byddwn yn croesawu rhagor o eglurhad gennych ynghylch y canlynol:

## Adolygiadau annibynnol i Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru

Yn ystod ein sesiynau gyda Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru ar 11 Mawrth 2024, cydnabu'r ddau sefydliad faterion diwylliannol posibl yn eu gwasanaethau a chynnydd mewn cwynion. Gwnaethoch ddweud y canlynol yn eich Datganiad Ysgrifenedig ar 11 Mawrth:

> *"rwy'n parhau i dderbyn gohebiaeth gan weithwyr presennol a chyn-weithwyr y ddau sefydliad, gan gynnwys honiadau o fwlio, aflonyddu rhywiol a dangos ffafriaeth wrth gynnig dyrchafiadau".*[1]

Wrth ymateb i'r cyhoeddiad, dywedodd Roger Thomas, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ei fod yn croesawu gwaith craffu allanol ar ddiwylliant y Gwasanaeth ac y byddant yn cofleidio ac yn ystyried hynny. Ar y llaw arall, dywedodd Dylan Rees, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y canlynol: "We welcome the announcement that there's going to be in an [sic] independent review, because we have nothing to hide. We welcome scrutiny and we believe it will show that we are making good progress in this area."[2]

1. Beth yw eich barn chi am natur gyferbyniol y datganiadau hyn? Sut y byddech yn ymateb i honiadau Mr Rees?

---

[1] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, Diwylliant a gwerthoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, 11 Mawrth 2024

[2] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, paragraffau 218 a 168, 11 Mawrth 2024

2. Ar gyfer y ddau adolygiad, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r canlynol:

a. Cylch gorchwyl yr adolygiadau a sut y maent yn cymharu ag adolygiad diwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
b. Yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer cwblhau'r adolygiadau;
c. Cadarnhad pwy fydd yn cynnal yr adolygiad ac a ystyriwyd penodi'r un panel â'r un a gynhaliodd adolygiad diwylliant Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

## Arolygu ac archwilio

3. O ran y gyfundrefn arolygu bresennol yng Nghymru, a allech amlinellu pa lefel o gapasiti sydd ar hyn o bryd i gynnal arolygiadau rheolaidd a thrylwyr? Pa mor aml gynhelir arolygiadau o wasanaethau tân ac achub?

4. Sut yr ystyrir materion sy'n ymwneud â diwylliant gwasanaeth tân ac achub yn y gyfundrefn arolygu bresennol? Beth yw barn Llywodraeth Cymru am newidiadau i'r gyfundrefn arolygu yn Lloegr a pha ystyriaeth a roddwyd i fabwysiadu cyfundrefn arolygu debyg?

## Y berthynas rhwng prif gynghorydd tân ac achub ac arolygydd a chadeiryddion gwasanaeth tân ac achub

Yn ystod ein sesiwn gyda chadeiryddion awdurdodau tân ac achub o'r presennol a'r gorffennol ar 11 Mawrth 2024, dywedodd Steven Bradwick wrthym y byddai wedi croesawu mwy o rôl i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gan Brif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru:

> *"The first time I ever met the adviser was in a social partnership meeting. I've never seen, when I've been in headquarters [...] I think part of the role could be enhanced by the Welsh Government, as they should meet with the chairs of fire authorities on a quarterly basis in HQ to sort things out, because I've never seen him when I've been there. [...] I've never had a one-to-one meeting with the adviser whatsoever, and I would welcome more of this collaboration, 100 per cent."*[3]

5. A allech nodi eich disgwyliadau o lefel yr ymgysylltiad rhwng yr awdurdodau tân ac achub a'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub?

6. Am bob un o'r tair blynedd diwethaf, a allech hefyd nodi lefel yr ymgysylltiad (nodwch fanylion o ran math, hyd a fformat pob ymgysylltiad) y mae Cadeiryddion yr awdurdodau tân ac achub wedi'i gael gyda'r canlynol:
    a. swyddogion Llywodraeth Cymru;
    b. Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Yn ein sesiwn ar 26 Chwefror, gwnaethoch ddweud hefyd, wrth ymateb i adroddiad 2023 Prif Arolygydd Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn Lloegr eich bod wedi ysgrifennu at holl gadeiryddion yr awdurdodau tân ac achub yn ôl ym mis Mai, gan nodi, er bod hynny'n gymwys i Loegr yn benodol, y byddech yn disgwyl rhai pwyntiau dysgu gyda rhywfaint o weithredu yn sgil hynny yma yng Nghymru, ac i wneud yn siŵr bod y mesurau o leiaf mor gadarn â'r rhai a argymhellwyd.[4]

---

[3] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 329, 11 Mawrth 2024

[4] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 26 Chwefror 2024

7. A allech rannu copi o'r ohebiaeth hon â ni a'r ymatebion a gafwyd gan bob un o'r gwasanaethau tân ac achub.

## Hyfforddiant

8. A allwch amlinellu pwy sy'n gyfrifol am hyfforddi a chynefino aelodau awdurdodau tân ac achub a pha hyfforddiant sylfaenol a ddarperir o ran materion diwylliannol megis cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth?

## Y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol

9. A allwch rannu â'r Pwyllgor aelodaeth, agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ac ymrwymo i rannu'r rhain â'r Pwyllgor yn barhaus?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych erbyn 4 Ebrill 2024.

Yn gywir



Jenny Rathbone
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol